




Disgyblu Myfyrwyr

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor, mae disgwyl i chi ddilyn **Rheoliadau Cyffredinol y Brifysgol ar gyfer Holl Fyfyrwyr, a'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr.** Mae'r rhain yn amlinellu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan bob myfyriwr, ac yn helpu i sicrhau fod y Brifysgol yn aros yn amgylchedd saff, parchus, a chynhwysol i bawb.

Os caiff pryderon eu codi eich bod chi wedi torri'r rheoliadau hyn, falle y cewch chi eich cyfeirio at **Drefn Disgyblu Myfyrwyr** y Brifysgol. Mi all cael eich cyfeirio at y broses yma achosi straen neu boen meddwl, ond mae'n bwysig i gofio nad yw cael eich cyfeirio yn golygu fod penderfyniad wedi cael ei wneud yn barod. Pwrrpas y drefn hon ydi i ymchwilio'r pryderon a godwyd, rhoi'r cyfle i chi gael rhannu eich safbwynt, a sicrhau fod unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn rhai teg.

Mae pryderon a all arwain at atgyfeiriad disgyblu yn gallu cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, ymddygiad sy'n effeithio eraill, torri polisiau'r brifysgol, camymddwyn academiaidd neu broffesiynol, aflonyddu, bwllo, difrod i eiddo'r brifysgol, neu ymddygiad arall sydd ddim yn cyrraedd y safonau a ddisgwylir o'r myfyrwyr.

Sut gallwn ni eich cefnogi chi?

Os cewch chi eich cyfeirio at Ddisgyblaeth Myfyrwyr, mae ein Gwasanaeth Cyngor yma i'ch cefnogi chi a'ch tywys chi trwy'r broses. Gallwn ni eich helpu chi i ddeall y pryderon a godwyd, esbonio'r broses, a'ch cefnogi chi wrth baratoi eich ymateb.

Fe wnawn ni gwrdd â chi i drafod beth ddigwyddodd, gwrando ar eich safbwynt, a'ch helpu chi i ddeall eich opsiynau. Gallwn ni eich cefnogi chi efo paratoi datganiadau ysgrifenedig neu ymatebion a'ch helpu chi i baratoi at unrhyw gyfarfodydd neu wrandawiadau y bydd rhaid i chi o bosib mynychu.

Wrth ymateb i bryderon disgyblu, mae'n bwysig bod yn onest, rhoi eich disgrifiad chi o'r digwyddiadau, a dangos eich bod chi wedi adlewyrchu ar y sefyllfa. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, falle y byddwch chi eisiau ystyried:

- Rhoi esboniad clir o beth ddigwyddodd o'ch safbwynt chi.
- Os ydych chi'n derbyn y pryderon a godwyd, esboniwch beth ddigwyddodd, pam ddigwyddodd hyn, a beth ddysgoch chi o'r sefyllfa. Ceisiwch osgoi gwneud esgusodion neu roi bai ar eraill. Yn lle,

canolbwyntiwrch ar ddangos mewnwelediad, atebolrwydd a dealltwriaeth o effaith eich gweithredoedd.

- Pan rydych chi wedi gwneud camgymeriad, mae'n bwysig cydnabod hyn ac ymddiheuro. Bydd y Brifysgol eisiau gweld eich bod chi'n deall pam fod yr ymddygiad yn annerbyniol, eich bod chi wedi adlewyrchu ar beth ddigwyddodd, ac eich bod chi wedi cymryd camau i rwystro hyn rhag digwydd eto.
- Os oedd yna amgylchiadau personol neu ffactorau eraill wnaeth gyfrannu at y sefyllfa, rhowch dystiolaeth o'r rhain pan yn bosibl, ac esboniwch yn glir sut maent yn cyfateb â'r pryderon sydd yn cael eu hystyried.
- Os nad ydych chi'n derbyn rhai neu bob un o'r pryderon a godwyd, esboniwch eich rhesymau yn glir a rhowch unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth sy'n cefnogi'ch safbwynt.

Rydyn ni'n argymhell cysylltu â ni cyn gynted ag ydych chi'n ymwybodol o unrhyw bryderon disgyblu. Mae chwilio am gyngor yn gynnar yn golygu ein bod ni'n gallu eich cefnogi chi trwy'r broses a helpu i sicrhau eich bod chi'n deall eich opsiynau.

Camau'r Broses Disgyblu Myfyrwyr

Mae gan y Broses Disgyblu Myfyrwyr 3 cam mewnol, a gallwch chi weld rhain yn y tabl isod. Mae'r cam y gwneith eich achos chi ei gyrraedd yn dibynnu ar ddifrifoldeb y pryderon a godwyd a'r amgylchiadau perthnasol.

Cam	Beth sy'n digwydd	Amserlen
Cam 1- Datrysiaid Cynnar	Mae Swyddog Ymchwilio yn edrych dros yr honiad ac yn cysylltu â chi. Falle bydd gofyn i chi gyfarfod yn anffurfiol. Gall materion bach gael eu datrys yma.	Cyn gynted ag sy'n bosib ar ôl yr honiad. Cam 1 a 2 efo'i gilydd: o fewn 40 diwrnod gwaith.
Cam 2- Y Cam Ffurfiol	Os na ellir datrys y mater yng Ngham 1, mi fydd gwrandawriad ffurfiol (Pwyllgor Ymchwilio) yn cwrdd. Fe wnewch chi dderbyn rhybudd ysgrifenedig o hyn o leiaf 10 diwrnod gwaith o flaen llaw.	O fewn y targed 40 diwrnod gwaith, wedi ei gyfuno â Cham 1.
Cam 3- Apêl	Os ydych chi'n anghytuno â'r canlyniad, gallwch chi apelio ar sail benodol. Fe fydd eich apêl yn cael ei ystyried gan banel sydd heb fod yn rhan o'r achos yn flaenorol.	Rhaid i chi gyflwyno eich apêl o fewn 10 diwrnod gwaith i'r penderfyniad. Gwrandawriad apêl o fewn 20 diwrnod gwaith i'w gyflwyno.
Adolygiad Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol (OIA)	Unwaith mae proses y Brifysgol wedi ei gwblhau, fe wnewch chi dderbyn llythyr Cwblhau Gweithdrefnau	Llythyr CG yn cael ei roi o fewn 20 diwrnod gwaith i'r penderfyniad terfynol. Rhaid i gwynion OIA gael eu

	(CG). Gallwch chi wedyn ofyn i'r OIA edrych dros eich achos.	cyflwyno o fewn 12 mis i'r llythyr CG.
--	--	--

Eich hawliau allweddol trwy'r broses hon

- Byddwch yn cael gwybod yn glir beth ydi'r honiad sydd wedi cael ei wneud yn eich erbyn.
- Fe gewch chi gyfle teg i ddweud eich ochr chi o'r stori.
- Mae'n rhaid i'r Brifysgol brofi'r honiad — does dim rhaid i chi brofi eich bod chi'n ddieuog.
- Mi geith penderfyniadau eu gwneud ar sail tebygolrwydd (beth sydd fwyaf tebygol o fod wedi digwydd).
- Gallwch ddod i unrhyw gyfarfod neu wrandawriad efo myfyriwr arall, cynghorydd Undeb y Myfyrwyr, neu gynrychiolydd arall o'ch dewis chi.
- Mae cynrychiolwyr cyfreithiol yn cael ei ganiatáu yng Ngham 2 lle mae'r canlyniadau posib yn ddifrifol (e.e. tynnu'n ôl o astudiaethau, atgyfeirio at reoleiddiwr proffesiynol).
- Gallwch chi ofyn i'ch cyfarfod neu eich gwrandawriad gael ei gynnal yn Gymraeg.
- Mi fydd pob penderfyniad yn cael ei wneud yn annibynnol — bydd neb sydd wedi ymchwilio i'r achos yn penderfynu ar y canlyniad.
- Fe fyddwch yn derbyn rhesymau clir ysgrifenedig ar gyfer pob penderfyniad.
- Mae gennych chi'r hawl i apelio penderfyniad disgyblu yn ôl Cam 3 y broses hon.
- Mi fydd eich data personol yn cael ei gadw'n gyfrinachol ac yn cael ei rannu efo'r rhai sydd ei angen yn unig.
- Mi fydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud os oes gennych chi anabledd neu rinwedd gwarchodedig arall.

Cam 1- Datrysiaid Cynnar

Os ceith pryder ei godi am eich ymddygiad, i ddechrau mi fydd y Brifysgol yn asesu'r honiad i benderfynu os dylid ei ymchwilio. Os mae ymchwiliad yn digwydd, mi fydd Swyddog Ymchwilio annibynnol yn cael ei benodi i gasglu tystiolaeth a sefydlu beth ddigwyddodd. Fe gewch chi wybod beth ydi'r honiad a chewch chi 10 diwrnod gwaith i roi ymateb ysgrifenedig. Falle bydd y Swyddog Ymchwilio hefyd yn siarad efo chi, y person wnaeth yr honiad ac unrhyw lygad-dystion, ac yn ystyried tystiolaeth berthnasol. Mewn rhai achosion bach, sy'n digwydd am y tro cyntaf, falle bydd hi'n bosib datrys y mater yn anffurfiol. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, mi fydd y Swyddog Ymchwilio yn paratoi adroddiad yn crynhoi'r dystiolaeth a'r canfyddiadau, a bydd hwn yn cael ei basio ymlaen at Swyddog Disgyblu i benderfynu beth sy'n digwydd nesaf.

Canlyniad Cam 1

Yn dilyn adolygiad o'r adroddiad ymchwilio, mi fydd y Swyddog Disgyblu yn penderfynu ar un o'r canlynol:

- Dim camau pellach: dydi'r honiad ddim yn cael ei brofi neu yn cael ei ddatrys yn anffurfiol.

- Gwrandawriad ffurfiol: caiff y cais ei gyfeirio at Bwyllgor Ymchwilio (Cam 2).
- Cosb fach: lle sefydlir fod rheol wedi cael ei thorri, ond ddim yn ddigon difrifol i warantu atgyfeiriad at wrandawriad ffurfiol, gallai'r Swyddog Disgyblu osod cosb fach, efo rhesymau ysgrifenedig a'r hawl i apelio fel rhan o Gam 3.
- Atgyfeirio at broses arall: mae'r mater yn gallu cael ei ddelio efo yn well o dan broses arall gan y Brifysgol (er enghraifft, Uniondeb Academaidd, Addasrwydd i Ymarfer, neu Gefnogaeth Astudio).

Fe gewch chi wybod am ganlyniad Cam 1 yn ysgrifenedig gan y Tîm Achosion Myfyrwyr. Bydd yr hysbysiad yn rhoi esboniad clir o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto.

Pan mae'r achos yn parhau at Gam 2, fel arfer byddwch chi'n derbyn adroddiad yr ymchwiliad a'r holl dystiolaeth fydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad.

Cam 2- Y Cam Ffurfiol

Os mae eich achos yn cyrraedd Cam 2, cewch chi eich gwahodd i wrandawriad Pwyllgor Ymchwilio, efo o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd. Fe fyddwch yn derbyn yr honiad, adroddiad yr ymchwiliad a'r dystiolaeth o flaen llaw, a gwybodaeth am eich hawl i gael eich cynrychioli, galw llygad-dystion a chyflwyno datganiad ysgrifenedig. Yn y gwrandawriad, mi fydd y Swyddog Ymchwilio yn cyflwyno'r canfyddiadau, fe gewch chi'r cyfle i ymateb ac ateb unrhyw gwestiynau, ac mi all gofyn fod i'r llygad-dystion roi tystiolaeth. Mi fydd y Pwyllgor yna'n ystyried y dystiolaeth yn breifat a phenderfynu, ar sail beth sy'n debygol, os mae camymddwyn wedi digwydd. Os mae camymddwyn wedi digwydd, gall y Pwyllgor hefyd benderfynu ar ganlyniad neu sancsiwn priodol. Fe gewch chi wybod y penderfyniad yn ysgrifenedig ar ôl y gwrandawriad.

Sancsiynau posibl ar ôl Cam 2

Sancsiwn	Disgrifiad
Rhybudd Ffurfiol	Rhybudd ysgrifenedig wedi ei gofnodi ar ffeil y myfyriwr am gyfnod penodedig.
Amodau	Hyfforddiant gorfodol, gwasanaeth cymunedol, ymddiheuriad ysgrifenedig, gwaith adferol, neu ofynion eraill.
Adferiad Ariannol	Gofyniad i dalu cost y difrod neu'r golled a achoswyd.
Gwaharddiad o safleoedd neu weithgareddau penodol	Gwaharddiad am gyfnod penodol o leoliadau neu weithgareddau a enwir.
Cyfyngiadau	Cyfyngiad ar gyswllt efo unigolion penodol.
Atgyfeiriad at Gefnogaeth Astudio	Gofyniad ffurfiol i'r myfyriwr ymgysylltu efo gwasanaethau cefnogi sefydliadol dynodedig - fel darpariaeth academiaidd, lles neu iechyd meddwl - lle nodwyd y pryderon a all fod yn cyfrannu at yr ymddygiad dan sylw.
Atgyfeiriad at Addasrwydd i Ymarfer	Ar gyfer myfyrwyr ar raglenni sydd yn cael eu rheoleiddio'n broffesiynol, atgyfeiriad o dan y broses Addasrwydd i Ymarfer, sy'n wahanol i'r un hon.
Argymell Gwaharddiad Dros	Gwaharddiad dros dro o astudiaethau a/neu

Dro	safle'r Brifysgol am gyfnod penodol.
Argymell Tynnu'n Ôl	Gwaharddiad parhaol o'r Brifysgol. Defnyddir yr opsiwn hwn yn yr achosion mwyaf difrifol o gamymddwyn yn unig.

Cam 3- Apêl

Os ydych chi'n anghytuno efo canlyniad Cam 2, falle y gallwch chi apelio'r penderfyniad. Rhaid i chi gyflwyno eich apêl i'r Tîm Achosion Myfyrwyr o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y penderfyniad. Gall apêl gael ei wneud os ydych chi'n credu fod anghysondeb trefniadol wedi bod, fod y penderfyniad neu'r sancsiwn yn afresymol neu ddim wedi ei gefnogi gan dystiolaeth, neu os oes gennych chi dystiolaeth newydd a all fod wedi effeithio'r canlyniad na all fod wedi cael ei gyflwyno'n rhesymol yn flaenorol. Dydi anghytuno'n unig efo'r canlyniad ddim yn ddigon i wneud apêl. Bydd eich apêl yn cael ei ystyried gan banel sydd heb fod yn rhan o'ch achos o gwbl yn flaenorol. Unwaith i'r apêl gael ei benderfynu, byddwch yn derbyn llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ac yna gallwch chi ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol (OIA) adolygu eich cais.

Achosion troseddol cydamserol

Os mae honiad hefyd yn cynnwys trosedd ac wedi cael ei adrodd i'r heddlu, gall y Brifysgol oedi ei broses ddisgyblu tra bod yr ymchwiliad heddlu neu unrhyw achosion troseddol yn digwydd. Fe gewch chi wybod os mae hyn yn digwydd. Gall y Brifysgol hefyd roi mesurau mewn lle tra bod y mater yn cael ei ymchwilio. Mi fydd y mesurau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd, a dydi hyn ddim yn golygu eich bod chi wedi cael eich canfod yn euog.